

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 10fed o Fai 2016

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Dyfed Edwards (Cynghorydd Sir), Justin Davies, Mark Balaam, Iwan Lloyd Williams – Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Sharon Wynne Jones, Harry Wyn Owen – Talysarn; Craig ab Iago – Cynghorydd Sir / **Ymddiheuriadau:** Peter Thomas (Talysarn), Nerys Williams (Penygroes), Ffion Jones (Nantlle).
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Ebrill.** OP Huws yn datgan cywirdeb a Gwyndaf yn eilio.
- 4. Llythyr ymddiswyddiad :** Eurig Wyn Evans, Cynghorydd Nebo. Darllenwyd llythyr Eurig. Y Cynghorwyr yn gresynu ei fod wedi ymddiswyddo, a'i fod wedi bod yn aelod brwd a ffyddlon o'r Cyngor. Gofynwyd i'r Clerc yrru llythyr o ddiolch iddo. Bydd rhaid hysbysebu'r sedd yn wag.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Caban ar gyfer yr ieuenctid – yr Heddlu sydd yn gyfrifol am drefniadau pellach; Trefnu is-bwyllgor mynwentydd yn y bythefnos nesaf; Llwybr 84 – cysylltu efo Cyngor Gwynedd i agor y llwybr; Cofeb R Williams Parry – Cynghorwyr yn parhau I wneud ymholiadau yn lleol. Y Cynghorwyr yn datgan na ddylai'r Cyngor Cymuned arwain ar y mater hwn gan fod ar ran o balmant gyhoeddus.
- 6. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio -** Adrodd yn ol i'r Cyngor. Doedd dim cyfarfod wedi bod yn ystod y mis, ond mae trefniadau mewn llaw i gynnal cyfarfod 'cyd-weithio' gyda chynghorau cymuned cyfagos ar y 19fed o Fai.
- 7. Cynllunio** Dim ceisiadau.
- 8. Gohebiaeth.**

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion - trefniadau gosod bin Nantlle – cadarnhawyd bod trefniadau mewn lle I ailosod y bin; Pont gerdded Nantlle – y gwaith wedi ei gwblhau; Caead draen ger 2 Glan Rhonwy – wedi suddo, ac o ganlyniad y ffordd yn anwastad – am dderbyn sylw Cyngor Gwynedd; Dwr ac ati Tal Mignedd – y mater wedi ei gofnodi gan Cyngor Gwynedd; Caead yn y ffordd ger Bro Silyn – am dderbyn sylw Cyngor Gwynedd; Ffordd Haearn Bach – cwynion am ddiffyg man troi. Y mater hwn wedi ei drafod nifer o weithiau, ond mae'r Cyngor yn parhau i fod o'r farn ei bod yn anodd gweld beth fyddai'r ffordd ymlaen, a phenderfynwyd peidio ag arwain ar hyn. Y Cyngor o'r farn nad oes risg diffyg mynediad I'r gwasanaethau brys. Holi adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd os oes modd iddynt weithredu os yw'r problemau parcio yn creu gwrthdaro cyhoeddus; Gordyfiant Nantlle – derbyn sylw Cyngor Gwynedd; Tyllau a gwliau Trem yr Wyddfa – derbyn sylw Cyngor Gwynedd; arwydd 'Nos' Tai Glan Rhonwy – y Cyngor am beintio drosto yn hytrach na gosod sticer I orchuddio'r gair, a gweld os y byddai hyn yn ddatrysiaid mwy parhaol.

*To lloches bws Llanllyfni. Cyngor Gwynedd wedi hysbysu fod rhai o'r llechi to yn rhydd. Cysylltu efo contractwyr gwaith y Cyngor Cymuned I ofyn wrthynt drefnu trwsio os oes angen. Edrych ar yswiriant y Cyngor Cymuned I weld os yw'r difrod yn gymwys I wneud cais yswiriant. Gofyn wrth y Cyngor Sir beth yw eu polisi nhw ar asesiadau risg llochesi bws, ac am ba reswm mae'r asesiadau yma wedi dechrau cael eu gwneud. A fydd hyn yn rywbeth rheolaidd? Hefyd gofyn am gopi o'r asesiad risg.

*Gorchymyn Ffordd Cors y Llyn. Ffordd yn cael ei chau am gyfnod o ddiwrnod ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Er gwybodaeth.

*Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd. Er gwybodaeth.

Arall

*Craig ab Iago – (adrodd yn ol) Pont Nantlle wedi ei thrwsio; Cyffordd Nasareth – doiogelwch y gyffordd; Gefeillio; Meinciau ac ysbwriel ger Lon Las, Llanllyfni; Ysbwriel Maes Castell; Eithin / ysbwriel; mater Heddlu cilfan Nasareth; Glanhau Llanllyfni; Tipio Lon Ddwr; Bolardiau o flaen Eglwys Llanllyfni.

*Dilwyn Lloyd - tipio Dorothea. Y safle ddim dan yr un berchnogaeth bellach. Dilwyn Lloyd yn datgan nad oes mwy y gall ei wneud. Er fod yr ysbwriel yn cael ei adael ar dir preifat, mae'n parhau I fod yn drosedd tipio yno. Mae oergelloedd ac ati yn cael eu gadael, a mae pryder fod hon yn creu risg iechyd.

*Cartrefi Cymunedol - ymateb parcio Bro Silyn. Y gwyn yn derbyn sylw.

*Cartrefi Cymunedol - manylion eiddo lleol. Manylion eiddo rhent sydd yn wag. Croesawu unigolion I roi cais am y ty.

*Cwrs Sgiliau Cadeirio 26/5 Caernarfon neu 19/5 Llangefni. Neb yn mynychu. (Dyfed yn gadael y cyfarfod).

*Ebst Nigel Schofield parthed llwybr yn rhwng Nebo a Tyddyn Agnes. Rhannwyd yr wybodaeth gyda'r Cynghorwyr.

*Clerks and Councils Direct. Er gwybodaeth.

9. **Materion Pentrefi.**

Penygroes Angen bin baw cwn rhwng Llanllyfni a Penygroes, gan bod baw cwn yn cael ei daflu i'r afon. Bysiau yn parcio yn y maes parcio dros y ffordd i Poveys (GR) – cysylltu efo Cyngor Gwynedd; Fan cynnal a chadw yn bagio yn ol a chael ei pharcio ar y palmant ar y brif llwybr rhieni a'u plant I Ysgol Bro Lleu. Mam a choets yn gorfod camu allan I'r ffordd; ffordd Trem yr Wyddfa a'r gwliau yn parhau I fod mewn cyflwr gwael,

Talysarn Coed yn tyfu yn yr afon Llyfni wrth llwybr Boncen Eithin, a'r coed yn atal I'r dwr lifo. Cysylltu efo Cyngor Gwynedd gan mai nhw yw perchnogion y tir; Tipio yn Sgwar Petris a Dorothea House – pryder bod y safle hwn yn cael ei dargedu gan rai sy'n tipio; Bin baw cwn yn maes parcio Ysgol Talysarn – heb ei roi yn ol yn ei le, ac yn orlawn. Gofyn iddo gael ei ail osod a'I wagio yn fwy rheolaidd, Quad Bikes o amgylch llyn Dorothea ac yn malu'r llwybr – hysbysu Cyngor Gwynedd. Ffens I lawr rhwng tir Dorothea a thir Cyngor Gwynedd ac felly beiciau cwad yn gallu mynd at y llyn. Cyflwr y llwybr heibio cae pel droed – o ganlyniad I'r gwaith ar y parc beicio, does dim wyneb iawn ar y llwybr mwyach(SWJ);

Llanllyfni Lori yn parcio dros y ffordd i fynedfa Bryn Ffactri (GR).

10. Llwylbrau a Mynwentydd. Angen torriad ychwanegol I'r mynwentydd.

11. Materion yn ymweud a'r heddlu.

12. Materion ariannol. Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Derbynebau Clerc; John Roberts £115; Scottish Power£32.62; Scottish Power £18.68. Derbyn.

Manylion Archwiliwr Allanol newydd Cynghorau Cymuned. Er gwybodaeth.

Taliad cyntaf Praesept wedi ei dderbyn. Er gwybodaeth.

13. Ceisiadau am arian. Diolchiadau. Llythyr o ddiolch gan y Celts, Treialon Cwn Defaid Llanllyfni ac Ambiwylans Awyr Cymru. Er gwybodaeth.

14. *Taenlen i'w chymeradwyo. Cymeradwyo.